## Communities and Culture Committee

## Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Gorffennaf 2010

Annwyl Gydweithiwr,

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: ymchwiliad i 'hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru'**

Mae Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth i'w ymchwiliad i 'Hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru.'

### Pwy ydym ni, a pham ein bod yn cynnal yr ymchwiliad hwn?

Pwyllgor trawsbleidiol yw'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, sy'n cynnwys Aelodau o'r 4 plaid wleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n gyfrifol am archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, mewn perthynas â Thai, Diogelwch Cymunedol, Cynhwysiant Cymunedol, yr Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Diwylliant.

Un o brif ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, a amlinellir yn 'Cymru'n Un,' oedd bod 'profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf ar gael i bawb, waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw.' O ganlyniad i'r ymrwymiad hwn, mae nifer o weithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn derbyn arian a chymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Ein bwriad yw archwilio a fu buddsoddiad o'r fath yn effeithiol o ran cyflawni bwriad datganedig Llywodraeth Cymru i ehangu mynediad at brofiadau diwylliannol. Rydym hefyd yn ymwybodol y bydd yr hinsawdd ariannol bresennol yn

Ffon / Tel: 029 20 9898736
E-bost / E-mail: sandy mewies.gov.uk

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

rhoi pwysau anochel ar gymorth o'r fath, a'n bwriad yw ystyried pa effaith bosibl a gaiff hyn ar fwriad datganedig Llywodraeth Cymru i ehangu mynediad.

Felly, rydym yn credu bod ymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn amserol ac o fewn cylch gwaith ein Pwyllgor trawsbleidiol.

**Cyhoeddiadau polisi diweddar gan Lywodraeth Cymru**

Yn dilyn cyhoeddi 'Cymru'n Un', gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o gyhoeddiadau yn ymwneud â'i nod o gynyddu hygyrchedd profiadau diwylliannol, gan gynnwys:

- parhau â chynllun sy'n rhoi mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau Cymru;
- y strategaeth Llyfrgelloedd am Oes a fyddai'n darparu £10.5 miliwn rhwng 2008 a 2011 i foderneiddio cyfleusterau llyfrgelloedd yng Nghymru;
- dau gynllun grant gwerth £860,000 yr un i annog archifau ac amgueddfeydd lleol i ddenu ymwelwyr newydd;[1]
- £1.7 miliwn i wella mynediad i gasgliadau celf cenedlaethol Cymru;[2] a
- chyhoeddi Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015, yn ddiweddar, sydd yn ymdrin â rhannu adnoddau a denu cynulleidfaoedd newydd a chynulleidfaoedd iau.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Cyngor Celfyddydau Cymru ('Cyngor y Celfyddydau') yw'r corff strategol cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, sy'n dosbarthu arian ar gyfer y celfyddydau ar ran Llywodraeth Cymru. Dywedodd llythyr cylch gwaith 2009-10 y Gweinidog Treftadaeth y byddai disgwyl i'r Cyngor Celfyddydau gyfrannu at nodau'r Llywodraeth drwy 'ganolbwyntio buddsoddiad ar gynyddu mynediad a lledaenu cyfranogiad i gelfyddydau o'r radd flaenaf, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.' At y diben hwn, cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau ddwy strategaeth ddrafft yn ymwneud â lledaenu mynediad:

- *Newid Bywydau: Strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Celfyddydau*, sy'n amlinellu strategaeth Cyngor y Celfyddydau dros y tair blynedd nesaf i wella cyfranogiad ymysg plant a phobl ifanc yn y celfyddydau, gyda phwyslais arbennig ar sicrhau bod cyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn y celfyddydau yn agosach at eu cartref; a

[1] Datganiadau i'r Wasg Llywodraeth Cymru. *Amgueddfeydd ac archifdai Cymru yn cael arian ar gyfer prosiectau ysbrydoledig* 27 Mawrth 2008 a *Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi yn nhrysorau'r gorffennol ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod* 24 Ebrill 2009
[2] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru , *Hwb ariannol o £1.7 miliwn i orielau Cymru*, 14 Hydref 2008

- *Cymryd Rhan: Strategaeth Cyfranogi Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru 2009-2013*, sydd â'r nod o gynyddu cyfleoedd i bobl fod yn weithgar yn y celfyddydau, yn bennaf drwy hyrwyddo manteision cymryd rhan a thrwy ddangos yn well beth sydd ar gael ledled Cymru.

*Arolwg Omnibus 2008*

Er mwyn casglu gwybodaeth am faint o bobl oedd yn mynychu digwyddiadau celfyddydol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, cyfwelodd Cyngor y Celfyddydau â thua 1,000 o bobl yng Nghymru fel rhan o Arolwg Omnibus 2008. Dyma oedd y prif ganfyddiadau:

- mae 79 y cant o oedolion Cymru yn mynychu o leiaf un digwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach;
- mae llawer llai o amrywiad rhwng y rhanbarthau o ran presenoldeb cyffredinol nag yn y blynyddoedd blaenorol;
- mae presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol yn parhau i gydberthyn i radd gymdeithasol, a'r rhai sydd yng nghategori ABC1[3] (86 y cant) sydd fwyaf tebygol o fynd i ddigwyddiadau  celfyddydol na'r rhai sydd yng nghategori C2DE[4] (72 y cant);
- mae oedolion iau yn llawer mwy tebygol nag oedolion hŷn o fynd i ddigwyddiadau celfyddydol (92 y cant o'r rhai rhwng 16 a 24 oed o gymharu â 62 y cant o'r rhai 65 oed a throsodd);
- mae merched (82 y cant) yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad celfyddydol na dynion (75 y cant);
- nid oes fawr o wahaniaeth yn y duedd i fynd i ddigwyddiadau celfyddydol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg neu beidio;
- mae 31 y cant o oedolion Cymru yn cymryd rhan uniongyrchol mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy, ond mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol na'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath (42 y cant o gymharu â  28 y cant);

*Adolygiad Buddsoddi 2010*

Yn ogystal, ar 29 Mehefin 2010 cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau ganlyniad ei Adolygiad Buddsoddi[5] manwl o'i drefniadau ariannu, a oedd yn penderfynu ar bortffolio newydd o 7 o sefydliadau refeniw a fyddai'n cael blaenoriaeth i dderbyn

---

[3] Proffesiynol, cymwysedig a gwaith nad yw'n llaw
[4] Gweithwyr llaw crefftus a lled-grefftus a phobl nad ydynt yn gweithio
[5] Cyngor Celfyddydau Cymru, *Adnewyddu a Thrawsnewid: creu dyfodol cryfach i'r celfyddydau yng Nghymru*, Mehefin 2010

arian Cyngor y Celfyddydau o 1 Ebrill 2011 ymlaen. O ganlyniad i'r adolygiad, bydd y trefniant hwn yn dod i ben i 32 o sefydliadau yng Nghymru sy'n derbyn arian refeniw blynyddol o fis Ebrill 2011 ymlaen. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau ei fod yn bwriadu parhau i roi cymorth i'r sefydliadau hyn drwy raglen bontio.

**Cylch Gorchwyl**

Cynnal ymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru, archwilio pa mor wasgaredig yw lleoliadau yn ddaearyddol, y gweithgareddau a gynhelir yn y canolfannau hynny, a materion yn ymwneud â mynediad ac arian. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn ystyried y canlynol:

- effaith buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yng nghyd-destun darparu mynediad at weithgareddau diwylliannol;
- effaith Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010, ar bob gweithgaredd a lleoliad diwylliannol yng Nghymru;
- effaith bosibl cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12 ar bob gweithgaredd a lleoliad diwylliannol yng Nghymru;
- y radd y caiff lleoliadau a gweithgareddau eu gwasgaru yn ddaearyddol a sut y caiff mynediad ei hyrwyddo ledled Cymru;
- yr amrywiaeth demograffig o ran lefelau mynychu a chyfranogi, yn enwedig yng nghyd-destun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- y rôl allweddol a chwaraeir gan awdurdodau lleol o ran darparu mynediad at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol.

**Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Gwahoddir y rhai sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor yn y cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn **dydd Gwener 24 Medi 2010** fan bellaf.

Os oes modd, darparwch fersiwn electronig ar ffurf MS Word neu Rich Text, neu drwy e-bost at Community.Culture.comm@Wales.gov.uk

Nodwch yn y papur a fyddai diddordeb gennych mewn cyflwyno eich safbwyntiau i'r Pwyllgor yn bersonol.

Dechreuwch eich cyflwyniad drwy roi rhywfaint o wybodaeth amdanoch eich hun, neu eich sefydliad, cyn nodi eich safbwyntiau a'ch profiadau mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r materion a ganlyn.

**Beth yr hoffem ei gael gennych chi – cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. A ydych yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei ymrwymiad i sicrhau bod 'profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf ar gael i bawb, waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw?' Pa mor effeithiol fu ei fuddsoddiad mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol o ran gwireddu'r amcan hwn?

2. Sut yn union mae lleoliadau celfyddydol a diwylliannol – gan gynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau – yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo mynediad, denu cynulleidfaoedd newydd ac annog pobl i gymryd rhan yn unol ag ymrwymiad *Cymru'n Un* a strategaethau Cyngor y Celfyddydau?

3. A yw'r rhwydwaith presennol o leoliadau celfyddydol a diwylliannol yn ddigonol, ac a oes unrhyw faterion daearyddol neu faterion eraill sy'n parhau i fod yn rhwystrau o ran cymryd rhan (e.e. mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd difreintiedig)?

4. Beth fydd effaith Adolygiad Buddsoddi Cyngor y Celfyddydau ar y rhwydwaith o leoliadau a gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru? A ydych yn ystyried y bydd penderfyniad Cyngor y Celfyddydau i roi'r gorau i ariannu 32 o sefydliadau, o ganlyniad i'r Adolygiad Buddsoddi, yn effeithio'n sylweddol ar hygyrchedd lleoliadau neu weithgareddau diwylliannol? A yw canolbwyntio'r arian yn osgoi iddo gael ei ddosbarthu'n rhy denau, a chyflawni ychydig?

5. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyllideb Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 2011-2012 tan fis Rhagfyr 2010. Pa effaith a gaiff gostyngiad yng nghyllideb Cyngor y Celfyddydau ar hygyrchedd gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru yn eich barn chi?

6. A oes gennych unrhyw bryderon am yr amrywiaeth yn ystod ac ansawdd gwasanaethau a gweithgareddau diwylliannol awdurdodau lleol ledled Cymru? A oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i ariannu a chynorthwyo gweithgareddau diwylliannol yn gyson yn yr hinsawdd economaidd bresennol?

7. Awgrymodd Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2008 fod pobl broffesiynol, cymwysedig neu sy'n ymwneud â gwaith nad yw'n waith llaw yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad celfyddydol na'r rhai oedd yn weithwyr medrus neu led-fedrus. A yw hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch egluro'r amrywiad hwn, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef?

8. Awgrymodd Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2008 fod oedolion iau yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad celfyddydol nag oedolion hŷn. A yw hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch egluro'r amrywiad hwn, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef?

9. Awgrymodd Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2008 fod merched yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad celfyddydol na dynion. A yw hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch egluro'r amrywiad hwn, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef?

10. Awgrymodd Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2008 fod Siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gymryd rhan uniongyrchol yn y celfyddydau na'r rhai nad ydynt yn Siarad Cymraeg. A yw hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch egluro'r amrywiad hwn, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef?

11. A ydych yn ymwybodol o unrhyw amrywiadau arwyddocaol eraill ym mhresenoldeb a chyfranogiad y cyhoedd mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol (er enghraifft, yn seiliedig ar gefndir ethnig, anableddau, lleoliad mewn ardal drefol neu wledig)?

12. A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach ar hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru?

**Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolyn neu sefydliad nad ydynt wedi eu cynnwys ond a hoffai o bosibl gyfrannu i'r adolygiad.** Ceir copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu Gwybodaeth**

*Unwaith y caiff tystiolaeth ysgrifenedig ei gyflwyno i'r Pwyllgor, dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff ei drin fel eiddo'r Pwyllgor. Bwriad y Pwyllgor yw rhoi papurau ysgrifenedig ar ei wefan, ac efallai y byddant yn ymddangos gyda'r adroddiad yn dilyn hynny. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol. Fodd bynnag, os derbynnir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a roddir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.*

*Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych am i'ch enw, fel awdur y dystiolaeth, gael ei ddatgelu, rhaid nodi hyn yn glir a'ch penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Ceir rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor a'i ymchwiliad yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees.htm

Yn gywir

**Sandy Mewies**
**Cadeirydd, Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

**Annex 1**

Minister for Heritage
Aberystwyth Arts Centre
Academi
Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales
Aled Rhys - Jones
All Wales Ethnic Minority Association
All Wales Saheli Association
Amgueddfeydd Gwynedd
Anti Poverty Network Cymru
Arad Goch
Arriva Trains
Artes Mundi
Arts Buisness Cymru
Arts Council Wales
Arts Training Wales
Asian Women's Group
Association for independent Museum
Association of British Orchestra
Association of Muslim Professionals
Association of Voluntary Orgisations in Wrexham
Audiences Wales
Autism Cymru
Axis
Bangladeshi Welfare Association
Bangladeshi Women's Group
Barnardos Cymru
BBC Wales
Beaufort Theatre Borough Theatre
Bed and Breakfast Association
Bevan Foundation
Big Lottery Fund
Black Association of Women Stepping Out
Black Environment Network (North Wales)
Black Voluntary Sector Network Wales
Blackwood Miners institute
Blaenau Gwent County Borough Council
Bodelwyddan
Bridgend Association of Voluntary Organisations
Bridgend County Borough Council
British Association of Friends of Museum
British Council UK
British Council Wales
British Olympic Association
Buisness in the Community Cymru
Cadw
Caerphilly County Borough Council

CARAD
Cardiff and Vale Coalition of Disabled
Cardiff County Council
Cardiff Heritage Park
Cardiff International Arena
Care Council for Wales
Careers Wales
Carers Wales
Carmarthenshire Association of Voluntary Services
Carmarthenshire County Borough Council
Ceredigion Association of Voluntary Services
Ceredigion County Council
Chapter Arts Centre
Chartered Institute of Marketing
Children in Wales
Children's Commissioner Wales
Chinese Community Service Committee
Chwarae Teg
Citizens Advice Bureau Cymru
City and County of Swansea
Clera Cymedeithas Offernnau Traddodiadol Cymru
Clwyd Theatr Cymru
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Collections Trust
Commission for Equality and Human Rights
Commonwealth Games Council for Wales
Community Dance Wales
Community Music Cymru
Conwy County Borough Council
Conwy Voluntary Services Council
County Library Haverfordwest
Crossroads Wales
Cw Taf Health Board
Cwmni'r Frân Wen
Cymru Yfory
Deaf Association Wales
Denbighshire County Borough Council
Denbighshire Heritage Service
Denbighshire Voluntary Services Council
Department for Culture, Media & Sport
Disability Arts Cymru
Disability Wales
Diversions Dance Company
dot.CYM
Dragon Sport
Drama Association of Wales
Duke of Edinburgh's Award
Dyfed Powys Police Authority

Egypt Centre
Ensemble Cymru
ESTYN
Ethnic Business Support Programme
European Commissioner in Wales
Federation of Museums and Art Galleries of Wales
Festival of Hope
Festivals of Wales
Fforwm Crefft Cymru
Ffotogallery
Film Agency Wales
Fit Cymru
Flintshire County Borough Council
Flintshire Local Voluntary Council
FM Consultancy
Football Association for Wales
Forestry Commission Wales
Friends of Gwynedd Museum
Funky Dragon
g39
Galeri
Glyndŵr University Wrexham
Golf Union of Wales
Golwg
Gwent Association of Voluntary Organisations
Gwynedd Council
Hay Festival
Health and Safety Executive
Heritage Lottery Fund Committee for Wales
India Dance Wales
Institute for Conservation (ICON)
Institute of Welsh Affairs
Interlink
International Council of Museums (ICOM).
Isle of Anglesey County Council
ITV Wales
Joint Committee for Ethnic Minorities in Wales
Joint Council for the Welfare of Immigrants
Llangollen International Eisteddfod
Mantell Gwynedd
Medrwn Mon
Merthyr Tydfil County Borough Council
MEWN Cymru
Michael Cousin
Mid Wales Opera
Millennium Stadium plc
Mission Gallery
Monmouthshire County Borough Council

Mother’s Union in Wales
Music Theatre Wales
Muslim Council of Wales
National Campaign for the Arts
National Dance Company Wales
National Eisteddfod FAO - Elfed Roberts
National Library Wales
National Museum Directors Conference Wales
National Museum Wales
National Trust
Neath Port Talbot Council for Voluntary Service
Neath Port Talbot County Council
Newport City Council
No Fit State
North East Wales Dance
North Wales Police Authority
North Wales Race Equality Network
North Wales Regional Institute of Sport
NSPCC Cymru
Ogmore Valley Local History and Heritage Society
Older Person’s Commissioner for Wales
Oriel Davies Gallery
Pakistan Association of Newport & Gwent Welsh Asian Council
Passenger Focus
Pembrokeshire Association of Voluntary Services
Pembrokeshire County Council
Pembrokeshire County Library
Physical Activity Network Wales
Play Wales
Polish Welsh Mutual Association
Pontardawe Arts Centre
Pontypool Museum
Powys Association of Voluntary Organisations
Powys County Council
Powys Dance
Prifysgol Aberystwyth University
Prifysgol Aberystwyth University
Prince's trust Cymru
Public Art in Wales
Public Services Ombudsman for Wales
Race Equality First
Railfuture
Refugee Voice Wales
Rhondda Cynon Taf Theatres
Rhondda Cynon Taff County Borough Council
Riverfront
RNIB
RNID

Royal Commission on the Ancient & Historical Monuments of Wales
Royal Welsh College of Music and Drama
Ruthin Craft Centre
Safle
Samaritans
Save the Children Cymru
Scope
SCOPE Cymru
Shelter Cymru
Sherman Cymru
Shout
SNAP Cymru
Somali Advice Centre
South East Wales Racial Equality Council
South Wales Police Authority
South Wales Vietnamese Association
Spectacle Theatre
Sports Coach UK
Sports Council for Wales
Stefhan Caddick
Stonewall Cymru
Stonewall Cymru
Sudanese Community Association
Swansea Bay Race Equality Council
Swansea Council for Voluntary Service
Swansea Grand Theatre
Swansea University
Taliesin Arts Centre
Tan Dance
Tenovus
The Art Fund
The British Hospitality Association
The Makers Guild in Wales
The Museums, Libraries and Archives Council
The National Deaf Children's Society
The National Trust
The Prince's Trust – Cymru
Theatr Bara Caws
Theatr Brycheiniog
Theatr Genedlaethol Cymru
Theatr Hafren
Theatr Mwldan
Theatr Mwldan
Theatr Powys
Theatre gwent
Torfaen County Borough Council
Torfaen Voluntary Alliance
Tourism Partnership Mid Wales

Tourism Partnership North Wales
Trac
Trinity College
Tŷ Cerdd
Ucheldre
UK Sport
UNICEF UK
UNISON Cymru
University of Wales Newport
Vale Centre for Voluntary Services
Vale of Glamorgan Council
Valleys Race Equality Council
Venice Biennale
Venue Cymru
Victim Support Wales
Visit Wales
Volcano Theatre
Voluntary Action Cardiff
Voluntary Action Merthyr Tydfil
Voluntary Arts Wales
Wales Arts International
Wales Audit Office
Wales Council for Voluntary Action

Wales International Festival of Theatre for Young Audiences
WAPA
Welsh Amateur Music Federation
Welsh Asian Council
Welsh Association of Child Psychotherapists
Welsh Books Council
Welsh Centre for International Affairs
Welsh Folk Dance Society
Welsh Jazz Society
Welsh Language Board
Welsh Literature Abroad
Welsh Local Authorities Consortium for Refugees and Asylum Seekers
Welsh Local Government Association
Welsh Music Foundation
Welsh National Opera
Welsh Refugee Council
Welsh Rugby Union
Welsh Ryder Cup
Welsh Sinfonia
Women's Arts Association
Wrexham County Borough Council
Wyeside Arts Centre
Young People's Partnerships
Youth Cymru

Youthlink Wales
YWCA